# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd A Thrafnidiaeth

## EDT2 08-05 (p7)

Dyddiad: 8 Mehefin 2005
Amser: 9.00 - 12.30
Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
Teitl: Adroddiad Blynyddol RSA Cymru Wales (RSA) a Grant Buddsoddi'r Cynulliad ar gyfer 2004-05

### Diben

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am nifer a dosbarthiad y cynigion ar gyfer RSA Cymru Wales a Grantiau Buddsoddi'r Cynulliad a wnaed rhwng Ebrill 2004 a Mawrth 2005. Mae'r papur hefyd yn amlinellu datblygiadau yn dilyn fy nghyhoeddiad y llynedd fy mod yn ailwampio RSA er mwyn gwneud y cynllun yn fwy perthnasol i amcanion 'Cymru'n Ennill' a 'Cymru: Gwlad Well'.

2. Rwyf yn bwriadu cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn y papur hwn mewn adroddiad blynyddol llawnach, manylach a gyhoeddir ddechrau'r haf.

### Rhagarweiniad

3. Mae RSA Cymru Wales (RSA) yn helpu i gefnogi prosiectau buddsoddi cyfalaf yn yr Ardaloedd a Gynorthwyir sy'n creu swyddi newydd ac/neu yn diogelu swyddi presennol.

4. Yn y cyfnod Ebrill 1 2004 hyd Fawrth 31 2005, gwnaed 139 o gynigion RSA oedd gyda'i gilydd yn werth £68 miliwn i gwmnïau oedd yn buddsoddi yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad cysylltiedig mewn prosiectau yn £333 miliwn a rhagwelir y bydd y prosiectau yn creu 5,586 o swyddi newydd ac yn diogelu 2,937 o swyddi presennol. Yn ystod yr un cyfnod yn 2003-04, gwnaed 146 o gynigion RSA oedd gyda'i gilydd yn werth £106.5 miliwn gyda chostau prosiect cysylltiedig o £599 miliwn; rhagwelwyd y byddai'r prosiectau hyn yn creu 6,906 o swyddi newydd ac yn diogelu 2,286 o swyddi oedd eisoes yn bodoli. Yn unol â'r tueddiad yn ystod yr ychydig o flynyddoedd diwethaf, mae lefel y cynigion yn is na'r flwyddyn uchaf ar gyfer RSA yn 2001-02. Ond mae hyn wedi ei gelu i ryw raddau oherwydd y bydd nifer o ymgeiswyr ar y lefelau grant is wedi gwneud cais am Grant Buddsoddi'r Cynulliad yn hytrach nag RSA ers lansio Grant Buddsoddi'r Cynulliad ym mis Ebrill 2002.

5. Mae cynllun Grant Buddsoddi'r Cynulliad yn cynnig cymorth ariannol ledled Cymru ar gyfer busnesau bach a chanolig h.y. busnesau â llai na 250 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn a

chyda throsiant blynyddol o 50m Ewro neu lai. Mae’r cynllun yn darparu grantiau rhwng £5,001 a £50,000 heb fawr ddim biwrocratiaeth. Nid oes rhaid creu neu ddiogelu swyddi (oni bai fod cymorth yn cael ei gynnig yn benodol fel ‘cymorth i greu swyddi’ - gweler paragraff 6 isod), ond rhaid i ymgeiswyr roi gwarant na fydd nifer y swyddi’n lleihau o ganlyniad uniongyrchol i’r prosiect.

6. Mewn amgylchiadau lle mae cynnig ymgeisydd yn golygu lefel gymharol isel o wariant cyfalaf ond lle bydd yn creu swyddi newydd, gellir cynnig cymorth fel "cymorth i greu swyddi’n gysylltiedig â buddsoddiad cyfalaf cychwynnol". Dan amgylchiadau felly, cyfrifir cymorth fel cyfran o’r costau cyflog a gysylltir â’r swyddi newydd.

7. Yn y cyfnod Ebrill 1 2004 hyd Fawrth 31 2005, gwnaed 359 o gynigion Grant Buddsoddi’r Cynulliad oedd gyda’i gilydd yn werth £10.4m i fusnesau i helpu i gefnogi bron i £35m o fuddsoddiad (mae hyn yn cymharu â 528 o gynigion gwerth £16.3m gyda £45.4m o fuddsoddiad yn 2003-04).

8. Ceir rhagor o ddadansoddi yn Atodiad A i’r papur hwn.

## Mesurau newydd

Asesiad ansawdd

9. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar Fai 19 y llynedd, amlinellais y mesurau yr oeddwn yn eu cyflwyno i ailwampio RSA er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd prosiectau unigol a’r buddion cymharol y gallent eu rhoi i Gymru. Ers hynny mae asesiad ansawdd ffurfiol o bob cais wedi cael ei gyflwyno sy’n cymryd i ystyriaeth cyfraniad posib buddsoddiadau tuag at gwrdd â’r targedau a amlinellir yn ein strategaeth economaidd "Cymru’n Ennill". Rhoddir sylw arbennig i’r cyfraniad a wneir gan brosiectau unigol i gynyddu sgiliau, arloesedd, Ymchwil a Datblygu ac i sicrhau swyddi o ansawdd gwell.

10. Sefydlwyd cysylltiadau gweithio agosach a mwy effeithiol hefyd gyda chyrff partner megis Awdurdod Datblygu Cymru a Chyllid Cymru er mwyn darparu gwasanaeth mwy cydlynol a di-dor i’n cwsmeriaid. Hyderaf y bydd uno’r ddau gorff yma â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fodd i sicrhau mwy fyth o welliannau yn y ffordd yr ydym yn cyflenwi gwasanaethau i fusnesau sy’n buddsoddi yng Nghymru.

11. Mae’r mesurau hyn yn helpu i sicrhau gwell werth i’r pwrs cyhoeddus a’r prawf o hyn oedd mai £7,978 oedd y gost gyfartalog fesul swydd ar gyfer grantiau a ddyfarnwyd yn 2004-05 o’i gymharu â chost gyfartalog fesul swydd o £11,586 yn y flwyddyn flaenorol (cyn yr ailwampio). Felly mae’r baich cyfan ar y trethdalwr wedi cael ei leihau’n sylweddol o’i gymharu â 2003-04, ac ar yr un pryd rhagwelir na fydd y cyfanswm swyddi a grëir lawer yn llai (rhagwelir y bydd 8,523 o swyddi newydd neu a ddiogelwyd yn sgil cynigion a wnaed yn 2003-04 o’i gymharu â

9,192 o swyddi newydd neu a ddiogelwyd yn 2003-4). Mae lefel y buddsoddiad yr ydym yn disgwyl ei ysgogi fesul £ o gymorth grant wedi lleihau ychydig i £4.89 o'i gymharu â £5.62 yn 2003-04.

12. Ar yr un pryd ag y cyhoeddais y newidiadau hyn i chi cyflwynais fy nghynigion ar gyfer mesurau pellach i wneud RSA hyd yn oed yn fwy cost-effeithiol gan ganolbwyntio ar amcanion ehangach Llywodraeth y Cynulliad. Yn awr gallaf ddatgelu manylion y mesurau hyn.

## RSA Ad-daladwy:

13. Mae swyddogion wedi lansio prosiect peilot sy'n cyflwyno ffurf ad-daladwy ar RSA. Pwrpas y mesur yw gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau RSA a chymryd y camau cyntaf tuag at greu diwylliant buddsoddi yn hytrach na diwylliant dibynnu ar grantiau yng Nghymru. Byddwn yn parhau i roi RSA trwy gyfrwng Grantiau Prosiect nad oes rhaid eu had-dalu, ond ambell waith, lle rhagwelir y bydd prosiect yn gwneud elw sylweddol ar ôl cyfnod cychwynnol o anawsterau a risgiau, byddwn yn ystyried cynnig grant y mae'n rhaid talu rhan neu'r cyfan ohono'n ôl. Bydd yr arian yn cael ei ad-dalu bob tro ar ôl cwblhau'r prosiect RSA, a bydd yn seiliedig (fel rheol) ar gyflawni rhagolygon gwerthiant, fel arfer mewn rhandaliadau dros nifer penodol o flynyddoedd. Ni fydd effaith ariannol y mesur hwn yn cael ei theimlo am ychydig o flynyddoedd ond maes o law dylai ddarparu cronfeydd arian y gellir eu hailgylchu er lles datblygiad economaidd yng Nghymru.

## Taliad premiwm ar gyfer cyflogi'r di-waith tymor hir a'r rhai economaidd anweithgar;

14. Cyflwynwyd mesur tebyg yn yr Alban ddwy flynedd yn ôl ond ychydig o lwyddiant a gafwyd. Bu peth oedi cyn ei roi ar waith yma oherwydd yr angen i wella ar y profiad yn yr Alban.

15. Yn yr Alban, nid yw'r premiwm yn gymwys ond i'r di-waith tymor hir o dan gynllun y Fargen Newydd. Yng Nghymru rydym yn bwriadu ehangu'r categori cymhwyster i gynnwys gweithwyr dan anfantais ar fudd-daliadau Canolfan Byd Gwaith eraill, gan gynnwys pobl anabl, a phobl economaidd anweithgar tymor hir. Mae swyddogion wedi cynnal llawer o drafodaethau gyda staff Canolfan Byd Gwaith ac mae'r rheini'n obeithiol y bydd y mesurau yn llwyddo yng Nghymru.

16. Dyma restr gyflawn o'r categorïau cymwys:

## Y bobl hynny oedd, yn union cyn iddynt gael gwaith, yn cymryd rhan yn un o'r rhaglenni Canolfan Byd Gwaith canlynol:

Y Fargen Newydd ar gyfer Pobl Ifanc;

Y Fargen Newydd 25 Plws;

Y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol

Y Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl;

Y Fargen Newydd ar gyfer Partneriaid;

Y Fargen Newydd 50 Plws;

Rhaglen Uchelgais

**Neu, unrhyw unigolyn oedd, yn union cyn iddynt gael eu swydd bresennol, wedi bod yn derbyn un neu gyfuniad o'r budd-daliadau Canolfan Byd Gwaith canlynol yn gyson am 26 wythnos neu fwy:**

Lwfans Ceisiwr Gwaith;

Budd-dal Analluogrwydd;

Cymhorthdal Incwm;

Lwfans Gofal Analluedd;

Lwfans Anabledd Difrifol;

Budd-dal Profedigaeth.

17. Nodir y swyddi posib a allai ddenu premiwm yn y cyfnod gwneud cais am grant. Yr allwedd i lwyddiant y fenter hon yng Nghymru fydd sefydlu cysylltiadau gweithio agos gyda Chanolfan Byd Gwaith a fydd yn mynd ati i gysylltu â chyflogwyr yn fuan yn y broses.

18. Ni fydd prawf modd ar y premiwm ac fe'i cynigir fel arian ychwanegol i'r cyflogwr ar ben y lefel RSA 'lleiafswm angenrheidiol' arferol. Ym mhob achos ni fydd yn bosib cynnig yr arian oni bai fod digon o le o fewn nenfwd cymorth gwladol y Gymuned Ewropeaidd. Bwriadwn gynnig £6,000 mewn dau randaliad cyfartal ar ôl i unigolyn fod mewn gwaith am gyfnod di-dor o 12 mis a 24 mis. (Mae'r Alban yn cynnig £5,000 mewn rhandaliadau o £2,000 a £3,000).

19. Yn ystod y dadleuon yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ac yn y Cyfarfodydd Llawn y llynedd, dadleuodd rhai ACau o blaid cynnig y premiwm mewn perthynas

â’r swydd ei hun ac nid yr unigolyn, h.y. y dylid talu’r premiwm ni waeth faint o weithwyr cymwys a fyddai yn y swydd dros gyfnod o ddwy flynedd. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn debygol o gyflawni diben y fenter, sef cael unigolion yn ôl i waith amser llawn am gyfnod go lew. Bydd ymgeiswyr, fodd bynnag yn gallu hawlio £3,000 ar gyfer pob unigolyn sy’n cadw ei swydd am o leiaf 12 mis.

20. Bydd y premiwm ar gael i fusnesau sy’n gwneud cais am hyd at ddwy flynedd ar ôl cwblhau’r prosiect.

21. Byddaf yn adolygu’r trefniadau yn ystod y ddwy flynedd gyntaf y bydd y cynllun yn weithredol ac yn diwygio yn ôl yr angen er mwyn mireinio’r cynllun.

## Cyfrifiadau Gwerth Ychwanegol Crynswth:

22. Yn dilyn astudiaeth beilot a gynhaliwyd gan swyddogion yn ystod hanner olaf 2004, mae’r holl arfarniadau o geisiadau RSA bellach yn cynnwys cyfrifiad o’r Gwerth Ychwanegol Crynswth fesul gweithiwr (i gynrychioli cynhyrchaeth). Mae’r cyfrifiad yn helpu i asesu i ba raddau y bydd prosiect yn gwella cynhyrchaeth a’r gallu i gystadlu o’i gymharu â’r cyfartaledd o fewn y diwydiant. Mae hefyd yn debygol o gael ei ddefnyddio yn y dyfodol fel arf i helpu i werthuso i ba raddau y mae’r RSA wedi cyfrannu tuag at wella cynhyrchaeth yng Nghymru.

23. Bydd effeithiolrwydd y prosiect peilot yn cael ei fonitro’n agos ar y cyd ag arbenigwyr yn Is-adran Cyngor Economaidd Llywodraeth y Cynulliad.

## Adborth i Gynghorwyr Grant

24. Mae proses adborth ddwyffordd ffurfiol yn cael ei lansio ar ansawdd pob cais RSA a gyflwynir gan gynghorwyr grant ac ar yr arfarniad ohono gan swyddogion. Y nod yw gwneud y broses mor gyfeillgar i’r cwsmer ag y bo modd tra ar yr un pryd yn cydbwyso’r angen i sicrhau gwerth da i’r pwrs cyhoeddus. Bwriadwn ymestyn y broses adborth i geisiadau Grantiau Buddsoddi’r Cynulliad yn ddiweddarach eleni yn dilyn cyfres o gyfarfodydd ymgynghori gyda phrif gynghorwyr Grantiau Buddsoddi’r Cynulliad.

## Adroddiad Blynyddol

25. Bwriadaf gynnwys y wybodaeth sydd ger eich bron heddiw mewn adroddiad blynyddol ffurfiol ar RSA a Grant Buddsoddi’r Cynulliad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2004-05 i’w gyhoeddi ddechrau’r haf. Trafodir yr Adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ym mis Medi a dosberthir copïau i aelodau’r Cynulliad pan fydd yn cael ei gyhoeddi. Rhoddir copi hefyd ar wefan Llywodraeth y Cynulliad. Fy mwriad yw mai’r Adroddiad Blynyddol cyntaf o lawer fydd hwn. Yn ogystal â’r wybodaeth a gynhwysir yn y papur hwn, bydd yr adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos yn

ogystal â’r holl gynigion i’r RSA a Grant Buddsoddi’r Cynulliad a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, y symiau unigol a gynigiwyd, enw’r sawl a’u derbyniodd a manylion byr am bob prosiect.

## Yr hyn y mae angen i’r Pwyllgor ei wneud

26. Gwahoddaf aelodau i nodi’r cynnig i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar RSA fel yr amlinellwyd ym mharagraff 25 uchod.

## Mis Mehefin 2005

## ATODIAD A

1. Manylion am gynigion RSA a wnaed yn 2004-05

Mae RSA yn parhau i ddarparu cymorth effeithiol i gwmnïau newydd a chymharol newydd; roedd traean o’r cynigion i gwmnïau llai na deng mlwydd oed.

Mae 87 (63 %) o’r cynigion (£47m o grant a 5,127 o swyddi) yn gysylltiedig â’r sector gweithgynhyrchu.

Gwnaed 52 o gynigion (37%) ( £21m o grant a 3,396 o swyddi) i’r sector gwasanaethau.

Gwnaed 61% o’r cynigion tuag at brosiectau gan gwmnïau o Gymru. Mae’r rhain yn cynrychioli 43% o’r cyfanswm swyddi y rhagwelir y byddant yn cael eu creu neu eu diogelu a 41% o gyfanswm gwerth y grant a gynigir.

Mae RSA yn parhau i gynnal buddsoddiad mewnol yn effeithiol - roedd 18% o’r cynigion tuag at brosiectau gan gwmnïau oedd yn eiddo i berchnogion tramor. Mae’r rhain yn cynrychioli 31% o’r cyfanswm swyddi y rhagwelir y byddant yn cael eu creu a 44% o gyfanswm gwerth y grant a gynigir. Rhagwelir y bydd cwmnïau sy’n eiddo i berchnogion tramor yn gyfrifol am 66% o’r buddsoddi ac mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith eu bod yn gwario mwy ar brosiectau mwy o faint. £7,624 yw’r grant cyfartalog fesul swydd i gwmnïau o Gymru o’i gymharu â £11,288 i gwmnïau sy’n eiddo i berchnogion tramor a £4,569 i gwmnïau eraill yn y DU.

## 1.1 Mathau o brosiectau:

| Math o Brosiect | Nifer | Swm a Gynigiwyd £m | Cost y Prosiect £m | Swyddi Newydd | Swyddi a Ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Busnesau / Gweithfeydd newydd | 46 | 23.2 | 180.2 | 2929 | 0 |
| Gweithgarwch newydd ar safle sy'n bodoli eisoes | 4 | 4.8 | 12.3 | 106 | 299 |
| Trosglwyddo i safle newydd | 24 | 10.8 | 30.4 | 602 | 601 |
| Moderneiddio/<br><br>Ehangu'r safle presennol | 62 | 28.6 | 109.4 | 1,755 | 2,037 |
| Y rheolwyr yn prynu'r perchnogion allan | 3 | 0.6 | 1.0 | 194 | 0 |

**1.2 BBaChau a chwmnïau mawr:**

| | Nifer | Swm a gynigiwyd £m | Cost y Prosiect £m | Swyddi newydd | Swyddi a Ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawr | 29 | 33.6 | 230.4 | 2,358 | 1,686 |
| BBaChau | 110 | 34.4 | 102.9 | 3,228 | 1,251 |

**1.3 Cwmnïau o Gymru, cwmnïau o leoedd eraill yn y DU a chwmnïau sy'n eiddo i berchnogion tramor:**

| | Nifer | Swm a gynigiwyd £m | Cost y Prosiect £m | Swyddi newydd | Swyddi a Ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwmnïau o Gymru | 85 | 28.0 | 82.5 | 2,538 | 1,111 |
| Cwmnïau o leoedd eraill yn y DU | 29 | 10.2 | 29.5 | 1,389 | 850 |
| Cwmnïau sy'n eiddo i berchnogion tramor | 25 | 29.8 | 221.3 | 1,659 | 976 |

## 1.4 Swyddi newydd a swyddi a ddiogelwyd

| | Nifer | Swm a gynigiwyd £m | Cost y Prosiect £m | Swyddi newydd | Swyddi a Ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Swyddi newydd yn unig | 95 | 37.9 | 223.9 | 4,754 | 0 |
| Swyddi a ddiogelwyd yn unig | 12 | 11.5 | 55.8 | 0 | 1,355 |
| Swyddi newydd yn bennaf | 12 | 5.0 | 14.5 | 336 | 155 |
| Swyddi a ddiogelwyd yn bennaf | 20 | 13.7 | 39.0 | 496 | 1,427 |

## 1.5 Ardaloedd Awdurdod Unedol:

| Ardaloedd Awdurdod Unedol: | Nifer | Swm a gynigiwyd £m | Cost y Prosiect £m | Swyddi newydd | Swyddi a Ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 4 | 4.875 | 17.75 | 254 | 14 |
| Pen-y-bont Ar Ogwr | 8 | 3.990 | 14.29 | 188 | 162 |
| Caerffili | 14 | 7.325 | 22.66 | 311 | 441 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 9 | 2.598 | 6.00 | 581 | 289 |
| Sir Gaerfyrddin | 5 | 1.065 | 4.39 | 79 | 107 |
| Ceredigion | 1 | 0.150 | 0.20 | 15 | 0 |
| Conwy | 2 | 0.475 | 1.85 | 55 | 0 |
| Sir Ddinbych | 6 | 2.265 | 5.03 | 165 | 158 |
| Sir Fflint | 6 | 1.275 | 2.92 | 172 | 23 |
| Gwynedd | 6 | 1.050 | 3.02 | 88 | 19 |
| Ynys Môn | 3 | 2.325 | 6.70 | 48 | 86 |
| Merthyr Tudful | 4 | 1.399 | 5.46 | 41 | 391 |
| Sir Fynwy | 2 | 3.775 | 25.34 | 10 | 131 |
| Castell-nedd Port Talbot | 9 | 3.462 | 11.71 | 260 | 124 |
| Casnewydd | 6 | 6.790 | 139.04 | 638 | 256 |
| Sir Benfro | 4 | 0.700 | 1.25 | 41 | 134 |
| Rhondda, Cynon, Taf | 16 | 11.666 | 32.90 | 652 | 490 |
| Abertawe | 11 | 1.935 | 5.43 | 163 | 112 |
| Torfaen | 3 | 0.970 | 2.16 | 165 | 0 |
| Cyfanswm | | | | | |

**Hefyd ni chadarnhawyd lleoliad y prosiectau canlynol gan yr ymgeiswyr; (ni thelir y grant cyn i'r lleoliad gael ei gadarnhau);**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ardal Haen 1 | 13 | 5.281 | 13.87 | 792 | 0 |
| Ardal Haen 2 | 7 | 4.636 | 11.37 | 868 | 0 |
| Cyfanswm | | | | | |

**Sylwer:**

(i) Nid yw Wrecsam wedi ei chynnwys yn y tabl hwn gan nad yw'n ardal gymwys at bwrpasau RSA.

## 2. Manylion cynigion Grantiau Buddsoddi'r Cynulliad a wnaed yn 2004-05

Mae'r cynllun yn gweithredu ar draws Cymru gyfan ac mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad daearyddol y cynigion.

| Ardaloedd Awdurdod Unedol: | Nifer | Gwerth y Cynnig £M | Cost y Prosiect £M | Swyddi Newydd | Swyddi a Gynhaliwyd* |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 10 | 0.30 | 0.97 | 26 | 182 |
| Pen-y-bont Ar Ogwr | 26 | 0.85 | 2.80 | 66 | 185 |
| Caerffili | 34 | 0.99 | 2.98 | 127 | 237 |
| Caerdydd | 21 | 0.50 | 2.66 | 66 | 237 |
| Sir Gaerfyrddin | 24 | 0.64 | 1.96 | 57 | 143 |
| Ceredigion | 14 | 0.30 | 1.06 | 15 | 39 |
| Conwy | 10 | 0.31 | 1.09 | 13 | 91 |
| Sir Ddinbych | 13 | 0.42 | 1.09 | 46 | 97 |
| Sir Fflint | 15 | 0.58 | 2.82 | 42 | 258 |
| Gwynedd | 22 | 0.66 | 2.32 | 31 | 298 |
| Ynys Môn | 6 | 0.20 | 0.43 | 3 | 19 |
| Merthyr Tudful | 5 | 0.16 | 0.41 | 23 | 24 |
| Castell-nedd Port Talbot | 25 | 0.58 | 1.14 | 74 | 122 |
| Casnewydd | 11 | 0.21 | 0.67 | 44 | 50 |
| Sir Benfro | 12 | 0.31 | 1.13 | 32 | 177 |
| Powys | 8 | 0.22 | 1.34 | 9 | 123 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhondda, Cynon, Taf | 38 | 0.98 | 2.99 | 101 | 415 |
| Abertawe | 18 | 0.66 | 1.60 | 52 | 339 |
| Bro Morgannwg | 6 | 0.14 | 0.65 | 25 | 7 |
| Torfaen | 23 | 0.72 | 2.36 | 81 | 215 |
| Wrecsam | 7 | 0.30 | 1.63 | 46 | 72 |
| Cyfanswm | | 10.03 | 34.10 | | |

Hefyd ni chadarnhawyd lleoliad y prosiectau canlynol gan yr ymgeiswyr; (ni thelir y grant cyn i'r lleoliad gael ei gadarnhau);

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ardal Haen 1 | 8 | 0.29 | 0.75 | 52 | - |
| Ardal Haen 2 | 3 | 0.10 | 0.13 | 17 | - |
| Cyfanswm | | 0.39 | 0.88 | | |